Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon
# Heol Gwyddon
# Abercarn
# NP11 5GX

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

Lleolir Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn Abercarn, yn awdurdod lleol Caerffili. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 244 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, sy'n cynnwys 27 disgybl oed meithrin rhan-amser. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn 10 dosbarth.

Ar gyfartaledd dros y dair mlynedd diwethaf, tua 12% o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 11% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn llawer is na'r ganran genedlaethol sy'n 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2011 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2013.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru. Mae hefyd yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth arloesol, gref a gofalgar. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o'r staff ac o'r disgyblion. O ganlyniad, mae wedi datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu greadigol ac effeithiol. Ceir cefnogaeth ragorol gan y dirprwy ac mae'r uwch dîm yn frwdfrydig iawn. Rhennir yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol gyda'r holl rhanddeiliad. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae'r staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u mannau cychwyn ac yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus iawn mewn gwahanol feysydd ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm dychmygus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda iawn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant, ymrwymiad a chyflawniad rhan fwyaf ohonynt.

Mae safonau lles, ymddygiad ac agweddau bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ganmoladwy. Oherwydd disgwyliadau uchel yr athrawon, mae bron pob disgybl yn ymateb yn dda i'r heriau y maent yn eu gosod. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar a cynhwysol a geir yn yr holl ddosbarthiadau, sy'n meithrin amgylchedd lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd gyda pharch.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyflwyniad gwaith y disgyblion

A2 Parhau i rannu’r addysgu hynod effeithiol ar draws yr ysgol, y consortia a thu hwnt

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn seiliedig ar sut mae’r ysgol yn defnyddio prosiect ymchwil i leihau baich gwaith athrawon a'r ddarpariaeth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn ac mae nifer yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyliadau wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus ac yn llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau creadigol a chydlynus. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf gyda ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd llawer uwch na'r disgwyl. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd ardderchog, gyda'r rhai mwyaf abl ohonynt yn gwneud cynnydd eithriadol. Mae bron pob disgybl yn datblygu fel dysgwyr cydwybodol a hyderus sydd â medrau gweithio annibynnol aeddfed. Mae hyn yn nodwedd arbennig ar draws yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau siarad a gwrando bron pob disgybl o ansawdd uchel iawn. O oedran cynnar, mae llawer yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau siarad o fan cychwyn isel. Maent yn siarad Cymraeg yn fuan iawn yn y dosbarth Derbyn. Erbyn cyrraedd Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn siarad yn aeddfed ac yn hyderus gan ddefnyddio geiriau estynedig wrth esbonio eu tasgau'n glir, er enghraifft wrth drafod dyddiadur Benjamin Hall. Wrth i ddisgyblion barhau i adeiladu ar eu medrau cyfathrebu, mae llawer, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn siaradwyr hynod groyw a hyderus. Mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n aeddfed iawn yn y ddwy iaith, gan fynegi eu syniadau, barnau a'u teimladau yn effeithiol a chlir mewn gwaith pâr, grwp a dosbarth cyfan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn datblygu eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn effeithiol ac yn defnyddio strategaethau addas er mwyn adnabod geiriau newydd yn llwyddiannus. O oed cynnar, mae llawer yn datblygu sylfaen gadarn o lythrennau a seiniau yn gyflym ac erbyn y dosbarth Derbyn yn darllen geiriau syml. Ym Mlwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn llunio geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus ac yn darllen â mynegiant priodol. Maent yn trafod cynnwys llyfrau â brwdfrydedd ac yn cyfeirio at nodweddion testun yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn datblygu medrau darllen cadarn yn unol â'u hoed a'u gallu. Dangosir dealltwriaeth dda o amrywiol destunau fel ffuglen, ffeithiol a barddoniaeth. Erbyn Blwyddyn 6, gwnânt ddefnydd da iawn o'u medrau i gasglu gwybodaeth berthnasol o lyfrau, prosiectau a gwefannau i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft dda yw'r cydweithio gydag awdur a dylunydd i lunio addasiad Cymraeg o'r nofel 'Bus Stop at the end of the World' ('Arhosfan ym Mhen draw'r Byd'). Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol iawn ar godi safonau darllen Cymraeg ym mhen uchaf y cyfnod.

O oed cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar pwrpasol, wrth greu marciau yn y tywod a chofnodi llythrennau a geiriau syml yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn atalnodi eu gwaith ac yn sillafu geiriau yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am Dân Mawr Llundain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu

mewn ystod addas o ffurfiau. Enghraifft dda yw disgyblion Blwyddyn 4, yn defnyddio eu dealltwriaeth o nodweddion llythyr ffurfiol i hysbysu rhieni am daith gerdded noddedig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol o safon uchel yn y ddwy iaith, fel llythyr milwr adeg yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ysgrifennu yn feddylgar, ac yn ystyried teimladau ac emosiynau yn effeithiol iawn, fel cerdd ar y testun 'Hunllef'. Er hynny, ar draws yr ysgol, nid yw safon cyflwyniad gwaith a llawysgrifen ychydig o ddisgyblion yn ddigon taclus.

Mae medrau a hyder y disgyblion mewn rhifedd yn datblygu'n dda iawn gyda'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n gynyddol effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn fuan iawn, mae bron pob un yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 a mwy yn hyderus. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn deall cysyniadau mathemategol fel gwerth lle, siâp, mesur, amser a thrin data yn dda iawn. Ym Mlwyddyn 2, mae'r disgyblion yn dysgu ffracsiynau syml trwy ddefnyddio gwahanol fathau o gynhwysion i wneud pitsa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn fedrus mewn gwahanol ffyrdd i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Gwnânt hyn o fewn eu hymchwiliadau gwyddonol a gweithgareddau thema yn dda. Mae'r disgyblion hŷn yn cwblhau heriau rhifedd yn gyson, er enghraifft i ddatrys problemau am 'Bwll Glo Gwyddon' a choedwigoedd glaw.

Mae medrau (TGCh) yn gryfder ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau'n hyderus wrth greu pictogram o hoff esgidiau'r dosbarth. Ym Mlwyddyn 2, maent yn creu algorithm syml i gyfarwyddo tegan electronig i deithio o gwmpas adeiladau enwog. Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddia'r disgyblion y rhyngrwyd yn effeithiol i ymchwilio am wybodaeth, a chreu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus am ba fath o adeilad sy'n gallu gwrthsefyll daeargryn. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio taenlenni yn effeithiol, a chreu a dehongli basau data yn gywir. Maent yn cynnal trafodaeth glir am ganlyniadau eu hymchwiliadau, er enghraifft wrth fesur maint cysgodion o'r ffynhonnell golau.

Mae medrau creadigol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn nodwedd gref. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau celfyddydol cynnar trwy efelychu arddulliau arlunwyr lleol a chenedlaethol i safon uchel mewn amryw gyfryngau.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae ymddygiad bron bob un o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Maent yn hynod gwrtais, gan ddangos aeddfedrwydd a lefel uchel o barch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd eithriadol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu gynhwysol, effeithiol iawn. Enghraifft dda o hyn yw sut mae disgyblion yn helpu ei gilydd yn y gwersi ac yn ystod adegau egwyl.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion yn arbennig o dda. Maent yn trafod agweddau o fywyd yr ysgol yn fyrlymus, a thrwy ddefnydd effeithiol o bartneriaid trafod, maent yn cyfathrebu'n agored ac yn onest gyda'i gilydd.

Mae bron pob un yn hynod gydwybodol, yn mynegi eu barn yn effeithiol ac yn cymryd eu dyletswyddau arwain o ddifri fel aelodau o'r amryw gynghorau. Maent yn dangos

dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd beunyddiol yr ysgol wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae gan bron bob un disgybl agwedd ardderchog tuag at eu dysgu. O oedran cynnar, maent yn dangos lefelau uchel o ganolbwyntio a gwydnwch yn eu gwaith. Maent yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, ac yn ymateb yn dda iawn i'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n rhan annatod a hynod effeithiol o fywyd yr ysgol. Mae bron pob un yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau.

Mae'r disgyblion bob amser yn barod am her yn eu dysgu, ac yn arddangos lefel arbennig o annibyniaeth. O oed cynnar, mae'r disgyblion yn barod i drafod a gosod targedau dysgu unigol. Mae hyn yn hybu eu hannibyniaeth ac yn rhoi perchnogaeth iddynt o'u dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Ar draws yr ysgol, maent yn ymateb yn frwdfrydig iawn i'r cyfleoedd cyson i gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu mewn perthynas â themâu'r dosbarthiadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau yn gynhyrchiol. Maent yn aeddfed ac yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig wrth ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus.

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder amlwg o'u Cymreictod ac yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn hyderus â'u cyfoedion ac yn deall mantais bod yn gwbl ddwyieithog yn eu bywydau pob dydd. Mae balcher y disgyblion am eu hysgol a'r ardal leol yn drawiadol. Trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, maent yn cyfranogi'n llawn yn y diwylliant lleol ac yn cyfoethogi'r profiadau'r dysgu. Mae gwaith blaengar y 'Criw Cymru Cŵl yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at yr agweddau hyn.

Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned. Maent yn datblygu'n ddinasyddion cydwybodol trwy godi arian tuag at elusennau ac achosion da. Enghraifft arbennig o dda yw sut llwyddodd yr ysgol i godi arian yn ddiweddar i brynu 'diffibriliwr' ar gyfer 'Apêl Jac'.

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Maent yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein ac yn esbonio'n fanwl beth i'w wneud os ydynt yn bryderus.

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl o bwysigrwydd cadw'n iach trwy yfed a bwyta'n synhwyrol a chyfranogi mewn gweithgareddau corfforol yn aeddfed. Enghraifft arbennig o dda yw menter 'Ionawr Iachus'. Maent yn manteisio'n llawn ar eu hardal leol i gynnal gweithgareddau hybu ffitrwydd, er enghraifft drwy daith gerdded noddedig i'r mynydd lleol, Twmbarlwm.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf yn uchel iawn ac yn cymharu'n dda iawn ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd presenoldeb cyson ac yn datgan yn hyderus effaith gadarnhaol hyn ar eu dysgu.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm symbylus a dychmygus sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus iawn ar draws y meysydd dysgu. Mae'r athrawon wedi cychwyn diwygio'r cynlluniau gwaith yn greadigol, wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol iawn ar gymhelliant, ymrwymiad a chyflawniad y rhan fwyaf o'r disgyblion. O oed cynnar, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol a chynyddol i gyfrannu at drywyddau penodol sydd o ddiddordeb iddynt ac i bennu'r themâu o fewn eu dosbarthiadau. Mae brwdfrydedd, boddhad a balchder disgyblion yn eu dysgu yn hynod drawiadol ar draws yr ysgol.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, o ran ymddygiad a'u cyflawniadau dysgu. Mae'r modd parchus ac adeiladol mae oedolion o fewn yr ysgol yn rhyngweithio â'r disgyblion yn meithrin eu hyder ac yn eu hannog i fentro heb ofni gwneud camgymeriadau wrth gyflawni eu tasgau. O ganlyniad, mae bron pob dysgwr, yn cynnwys y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da neu well yn eu dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon yn fodelau iaith effeithiol a brwdfrydig. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar safonau llafaredd Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn defnyddio ystod amrwyiol o adnoddau a dulliau addysgu sy'n cymell diddordeb ac ymrwymiad disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd parhaus i gyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft drwy deithiau addysgol a mewnbwn arbenigwyr. Yr enghreifftiau mwyaf effeithiol yw'r gweithdai gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru ar gyfer disgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 ac ymweliad artist celf â'r ysgol i greu murlun o'r ardal leol.

Mae athrawon yn cynllunio'n greadigol i ddarparu cyfleoedd bwriadus a chydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn fedrus ar draws y meysydd dysgu. Maent yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cyson i ymarfer a chymhwyso eu medrau ac i wneud cysylltiadau ystyrlon yn eu dysgu. Enghraifft arbennig o hyn yw prosiect mentergarwch wrth greu a gwerthu bathodynnau deinosor ar gyfer cefnogi'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ac yn adlewyrchu dealltwriaeth dda iawn y staff o'r cyfnod. Maent yn cynllunio cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau ffocws a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu i gymhwyso eu medrau yn bwrpasol. Mae'r defnydd dychymygus o'r amgylchedd allanol yn cynnig amrywiaeth ac ystod dda iawn i'r ddarpariaeth, er enghraifft drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion blannu tatws yn ardd yr ysgol.

Mae'r cydweithio cryf rhwng yr athrawon ar staff cefnogi yn cyfrannu'n effeithiol tuag at greu hinsawdd ddysgu gynhwysol a chefnogol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu'n unigolion hyderus.

Mae gan yr athrawon adnabyddiaeth dda iawn o anghenion dysgu a lles eu disgyblion. Maent yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau ac asesiadau yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae staff yn annog disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd, ac mae'r modd y caiff disgyblion gyfle i ddewis lefel y dasg yn rhoi perchnogaeth iddynt o'u dysgu. Mae hyn yn hyrwyddo eu hannibyniaeth ac yn sicrhau eu bod yn deall camau nesaf eu dysgu. Mae hyn yn nodwedd gref o'r addysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo Cymreictod yn hynod effeithiol drwy ystod eang o weithgareddau cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am hanes a ddiwylliant Cymru ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob cyfle. Mae hyn yn arwain at ennyn balchder disgyblion yn eu hunaniaeth, eu hiaith a'u gwlad. Ategir hyn yn llwyddiannus drwy cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol, er enghraifft eu hastudiaeth o'r thema 'Aur Du' yn seiliedig ar hanes Pwll Glo Abercarn.

Mae'r dosbarthiadau a'r coridorau yn raenus, yn lliwgar ac yn ysgogol lle gall disgyblion ddysgu'n hapus a chynhyrchiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn arbennig ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, teuluol, gofalgar a hynod gynhwysol ar gyfer pob disgybl.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd, lles ac ymddygiad disgyblion. Mae'r staff yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r gweithdrefnau i adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddarparu addysg ddiddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac i fynd i'r afael â'u hanghenion yn effeithiol.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn darparu arweiniad a chefnogaeth ardderchog i'r athrawon ar ddisgyblion. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig gynllun addysg unigol o ansawdd uchel, gyda thargedau mesuradwy a heriol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, a'u haddasu yn ôl y galw. Enghraifft o effaith yr ymyraethau hyn yw'r cynnydd nodedig mewn lefelau presenoldeb grwpiau o ddisgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Un o'r nodweddion hynod gryf ynglŷn â gwaith yr ysgol yw ei hymrwymiad i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn ei dysgu o ganlyniad i ymyriadau, heb yr angen iddynt dderbyn y rhain am gyfnodau estynedig. Mae strategaethau pwrpasol, er enghraifft, ar gyfer disgyblion bregus i fynd i ystafell dawel sy'n caniatau iddynt drafod eu teimladau ar adegau heriol. Mae hyn yn fodd effeithiol o godi eu hyder ac i sicrhau eu bod yn barod i ddysgu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn a'i chymuned a manteisia'n llawn ar ei chefnogaeth, fel ymweliadau rheolaidd i berfformio yn yr eglwys leol ar gyfer gwasanaethau dosbarth a chyngherddau. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gadarn a chynhyrchiol. Mae cyfeillion Cwm Gwyddon yn cefnogi'r ysgol yn ariannol trwy amrywiol weithgreddau, er enghraifft wrth wneud gwelliannau i'r ardal tu allan. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gydag ysgolion eraill cyfagos, yn cynnwys ysgolion uwchradd lleol a chydag asianataethau allanol, sy'n fodd effeithiol o gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol ei disgyblion, sy'n meithrin agweddau fel parch a chydraddoldeb, ac sy'n hybu nodau'r ysgol yn hynod effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd arbennig i hyrwyddo medrau cymdeithasol, moesol ac ysbrydol ei disgyblion, trwy ddefnyddio strategaethau amrywiol, sy'n cynnwys darparu cyfleoedd i ddisgyblion

leisio eu barn. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar allu'r disgyblion i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd o fewn amgylchedd gynhwysol a gofalgar. Mae staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill, er enghraifft drwy godi arian at elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Trefnir cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli, sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu fel wythnos gwrthfwlio. Cânt gyfleoedd i werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion crefyddol, moesol a materion sy'n digwydd yn y byd ehangach.

Mae athrawon yn trefnu ymweliadau addysgol cyfoethog ac yn gwahodd ymwelwyr diddorol i'r ysgol, sy'n cyfrannu'n gadarn at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd meithrin agweddau cymdeithasol eang ac amrywiol. Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl iawn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn annog y disgyblion i gymryd rhan gyson yn yr ystod dda o glybiau dysgu.

Mae'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a chelfyddydau mynegiannol yn nodwedd arbennig. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth ragorol o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder, eu balchder yn eu hunain a'u gallu i gydweithio ag eraill. Mae enghreifftiau da yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a cherddorol a chystadlaethau'r Urdd. Mae disgyblion ar frig yr ysgol, er enghraifft, yn cydweithio gydag chantorion Opera Cenedlaethol Cymru yn flynyddol, ac yn mwynhau'r cyfleoedd i fod yn greadigol. Hyrwyddir hanes a diwylliant Cymru yn feunyddiol, sy'n elfennau effeithiol o waith yr ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth arloesol, gref a gofalgar. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun, o'r staff ac o'r disgyblion. O ganlyniad, mae wedi datblygu'r ysgol yn gymuned ddysgu greadigol ac effeithiol gan adlewyrchu arwyddair, 'Muriau Cadarn – Y Dyfodol', yn llwyddiannus iawn. Mae'r pennaeth yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol iawn, yn enwedig i ddatblygu staff fel arweinwyr yn yr ysgol. Mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cefnogaeth ragorol i'r pennaeth ac mae ganddi rôl amlwg wrth fwrw ymlaen â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae'r uwch dîm rheoli yn frwdfrydig ac yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n gryf ar gefnogi lles disgyblion a datblygu dysgwyr uchelgeisiol a hyderus mewn awyrgylch Cymreig. Mae'r weledigaeth yn cael eu rhannu'n llwyddiannus iawn gyda'r holl rhanddeiliad. O ganlyniad, mae staff yn gweithio o fewn diwylliant o werthoedd proffesiynol ac addysgol cryf. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ethos arbennig o waith tîm sy'n bodoli ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Rhennir arweinwyr cyfrifoldebau yn synhwyrol ymhlith y staff, gan eu hannog i gymryd penderfyniadau ac arwain mewn meysydd penodol.

Mae'r pennaeth yn flaengar wrth ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, a phrosiectau a mentrau sy'n fanteisiol i'r disgyblion. Mae'n hybu arloesedd yn barhaus, ac wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu ysgol sy'n rhannu arfer dda ar draws yr ysgol a thu hwnt. Mae'r gwaith hwn yn treiddio'n naturiol trwy holl waith yr ysgol ac yn ymgorffori egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn awyrgylch cefnogol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae'r ysgol yn flaengar wrth ddechrau datblygu cwricwlwm creadigol, ysgogol ac ymarferol sy'n ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn eu dysgu. Mae hyn wedi arwain at weithgareddau heriol ac ysgogol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion, sy'n sicrhau bod yr holl athrawon yn atebol am ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae athrawon yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda iawn, yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae hyn yn arwain at safonau a lles uchel ar draws yr ysgol.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn fanwl iawn, ac yn rhoi ffocws clir ar safonau lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnal a gwella ymhellach y safonau da a welir. Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hyn a'r cynllun datblygu'r ysgol. Mae gan arweinwyr hanes cadarn o sicrhau gwelliant a datblygu'r ysgol yn ganolfan ddysgu lwyddiannus. Er enghraifft, mae'r gwaith i wella ysgrifennu disgyblion y cyfnod sylfaen trwy weithgareddau llafar wedi arwain at safonau uchel. Mae holl arweinwyr yr ysgol yn chwarae rôl weithredol mewn prosesau monitro ac, o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gyfredol gadarn am berfformiad yr ysgol ac yn ymateb i welliannau fel datblygu darllen Cymraeg a Saesneg y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ynghyd ag anghenion proffesiynol unigolion. Nodwedd ragorol yw'r trefniadau a'r cyfleoedd cyfoethog a wna'r ysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff. Caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i rannu eu harbenigedd, eu medrau a'u hyfforddiant ar draws y consortia a thu hwnt. Mae uwch arweinwyr yn annog staff i gymryd cyfrifoldeb am amrywiol brosiectau a gweithgareddau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol. Enghraifft ardderchog yw'r ymateb yr ysgol i leihau baich gwaith athrawon wrth adolygu polisi marcio ac ymateb i waith disgyblion sy'n plethu'n llwyddiannus â'r gweithdrefnau cynllunio a gwahaniaethu ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lles staff a chynnydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau addysgeg arbennig gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg de ddwyrain Cymru. Trwy arwain ar y prosiect 'Anelu at Ragoriaeth' mewn addysgu, mae'r ysgol yn llwyddo i ledaenu arfer dda mewn addysgeg ar draws siroedd y consortiwm. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau addysgu a dysgu o fewn yr ysgol ac ymhellach. Mae'r ysgol yn datblygu'r prosiect eleni i hyfforddi a datblygu staff ac athrawon y dyfodol ar draws y consortiwm.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan y pennaeth ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at y broses hunanwerthuso trwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu, sgwrsio gyda

disgyblion a chyfweliadau ag arweinwyr y cwricwlwm.  O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o gryfderau, y meysydd sydd angen eu gwella ac am berfformiad yr ysgol.  Maent yn defnyddio'r wybodaeth yma yn effeithiol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfri am ei pherfformiad.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro defnydd o'r gyllideb yn effeithiol.  Mae'r gyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir.  Mae gan yr ysgol gynllun gwariant manwl ar gyfer y grant datblygu disgyblion i ddarparu ymyriadau pwrpasol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion â medrau sylfaenol is.  Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion mwy abl sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd eithriadol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2020